Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Sut i redeg system trin carthion eich cartref yn dda

### Arweiniad a llyfr log ar gyfer perchnogion

Bydd y cyngor a roddir yn yr arweinlyfr a'r llyfr log yma'n eich helpu i reoli eich system mor effeithlon â phosib a bodloni eich rhwymedigaethau cyfreithiol. Defnyddiwch y llyfr log i gofnodi archwiliadau cynnal a chadw rydych wedi'u gwneud ynghyd â manylion y cludwyr gwastraff rydych wedi'u defnyddio.

## Ydych chi'n gwybod sut mae'ch carthion yn cael eu trin?

Os nad yw eich eiddo wedi'i gysylltu â charthffos fudr gyhoeddus, yna yn ôl pob tebyg rydych wedi eich cysylltu â system garthffosiaeth breifat. Gall fod yn gyfleuster parod i drin carthion neu'n danc septig, neu'n garthbwll. Os **na** chaiff unrhyw un o'r systemau hyn eu **cynnal a'u cadw neu eu gwagio'n rheolaidd**, gallant arwain at **berygl iechyd** i chi a'ch teulu a llygru'r amgylchedd. **Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithlon.** Rhaid cadw cofnodion o waith cynnal a chadw am **5 mlynedd.**

**Y dewis gorau pan fo hynny'n bosib yw cael eich cysylltu â charthffos fudr gyhoeddus.**

Gall camgysylltiadau fod yn ffynhonnell llygredd dŵr o bwys. Gwnewch yn siŵr fod gennych chi'r cysylltiadau iawn yn eich cartref ar gyfer *dŵr wyneb* a *dŵr budr*. Os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud, edrychwch ar http://www.connectright.org.uk/ i gael mwy o wybodaeth ac i ddod o hyd i fanylion cyswllt eich cwmni dŵr neu blymwr dibynadwy yn y cyffiniau.

**Oeddech chi'n gwybod?**
Bydd cynnal a chadw eich system garthion yn iawn yn arbed arian i chi yn y pen draw. Os nad ydych chi'n mynd ati i drwsio system garthion ddiffygiol, byddwch yn effeithio ar eich amgylchedd yn uniongyrchol ac fe allech wynebu dirwy o hyd at £50,000

## Cofrestru a thrwyddedu – eich cyfrifoldeb cyfreithiol

Os oes gennych danc septig neu gyfleuster parod i drin carthion, neu os ydych yn bwriadu gosod un newydd, yna yn ôl Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 rhaid i chi wneud cais am drwydded gweithgareddau gollwng i ddŵr (os byddwch yn gollwng i gwrs dŵr) neu drwydded gweithgareddau gollwng i ddŵr daear (os byddwch yn gollwng i'r ddaear), neu gofrestru Eithriad (am ddim) rhag yr angen i gael trwydded o'r fath. Bydd yr angen i gael eithriad neu drwydded yn dibynnu a fyddwch yn cyrraedd gofynion arbennig, ai peidio.

Gallwch wneud cais ar-lein ar ein gwefan https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-discharges/register-your-septic-tank-package-sewage-treatment-plant/?lang=cy i gofrestru eithriad.

Neu ewch i https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-discharges/discharges-to-surface-water-and-groundwater/?lang=cy i wneud cais am drwydded.

**Ydych chi angen system newydd, neu ydych chi'n symud tŷ?**


Siaradwch â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gosod system newydd, oherwydd efallai y byddwch chi angen trwydded. Siaradwch â'ch cyngor lleol i weld a fydd eich system yn bodloni gofynion cynllunio a rheoliadau adeiladu. Ewch ati i osod cyfarpar sy'n cyrraedd Safon Brydeinig BS EN 12566

Os byddwch yn gwerthu eich eiddo, rhowch wybod i'r prynwr yn ysgrifenedig fod gan yr eiddo danc septig neu gyfleuster parod i drin carthion

## Beth yw Tanciau Septig?


Tanc gwaddodi tanddaearol dwrglos yw tanc septig, gyda mewnbibell ac allfa a 2 neu fwy o siambrau (ffigur 1). Gall fod wedi'i wneud o frics neu o goncrit; neu os yw'n fwy modern, o blasting neu o wydr ffibr.

**Ffigur 1: enghraifft o danc septig (ⓗ Eryri-Bywiol)**



Prif bwrpas y tanc yw gwahanu solidau oddi wrth hylifau. Mae deunydd solet yn casglu yng ngwaelod y tanc ac yn ffurfio slwtsh, ac mae llysnafedd yn ffurfio ar yr wyneb. Dylid tynnu'r slwtsh a'r llysnafedd o'r tanc bob hyn a hyn a threfnu i gludydd gwastraff cofrestredig gael gwared â nhw. Rhaid trin yr elifion hylifol ymhellach trwy ddefnyddio maes draenio cyn eu gollwng i'r ddaear, neu drwy gyfrwng systemau trin eraill fel gwelyau cyrs, hidlyddion graean neu gyfleuster parod i drin carthion pan fydd maes draenio yn anaddas (mae cyfleusterau parod i drin carthion yn trin yr elifion hyd at safon uwch ac efallai y gellir eu gollwng yn uniongyrchol i gwrs dŵr addas).

**Ni ddylai elifion tanc septig ollwng yn uniongyrchol i ddŵr wyneb.**




**Ffigur 2: enghraifft o faes draenio nodweddiadol** (Adran H2 y Rheoliadau Adeiladu)

Y driniaeth ychwanegol fwyaf cyffredin ar gyfer elifion tanc septig yw defnyddio maes draenio (ffigur 2). Mae hyn yn galluogi'r elifion i drylifo drwy'r pridd, a defnyddir micro-organeddau yn haen y pridd i bydru'r amhureddau. Yn y pen draw, mae'r hylif sy'n weddill yn pasio trwy'r dŵr daear. Hyd yn oed pan gaiff eich maes draenio ei gynnal a'i gadw'n briodol, efallai y bydd yn blocio ar ôl cael ei ddefnyddio am sawl blwyddyn ac efallai y bydd angen gosod un newydd yn ei le.

Cewch wybodaeth am gynllun systemau ymdreiddio yn Adran H2 y Rheoliadau Adeiladu (http://www.planningportal.gov.uk/buildingregulations/approveddocuments/parth/approved).

## Cynnal a chadw eich tanc septig

**Nid oes y fath beth â thanc septig nad oes angen ei gynnal a'i gadw!**

Pwrpas tanciau septig yw casglu solidau – a elwir yn slwtsh; sy'n pentyrru dros amser. Os bydd gormod o ddeunydd solid i'w gael, gall lifo i'r maes draenio a'i dagu. Bydd rhywfaint o waith yn rheolaidd yn arbed arian i chi, ac yn ymestyn oes y system yn sylweddol.

Argymhellwn eich bod yn archwilio eich tanc septig bob mis. Dylai'r elifion a ddaw o allfa eich tanc lifo'n rhwydd, a dylent fod ar ffurf hylif yn unig. **Dylai contractwr cofrestredig wagio eich tanc bob 12-24 mis.**

Hefyd, dylech archwilio'r maes draenio bob mis i wneud yn siŵr nad yw'n ddyfrlawn ac i sicrhau nad yw'r elifion yn ymgasglu'n nes at y tanc.

## Beth yw Cyfleuster Parod i Drin Carthion?

Mae cyfleusterau parod i drin carthion yn darparu triniaeth fiolegol ar lefel uwch o lawer na thanc septig, ac efallai y gellir gollwng yn syth i gwrs dŵr. Rhaid cael maes draenio o hyd os byddwch yn gollwng i'r ddaear. Ceir gwahanol fathau o gyfleusterau parod i drin carthion, ond yn aml mae ganddynt gydran fecanyddol sy'n rhoi aer (ocsigen) i'r bacteria/micro-organeddau yn y parth biolegol, gan eu galluogi i bydru deunydd organig yn y carthion. Mae'r rhan fwyaf o gyfleusterau parod i drin carthion angen cyflenwad trydan di-dor.

Mewn rhai ardaloedd amgylcheddol sensitif, efallai y bydd elifion cyfleusterau parod i drin carthion angen triniaeth bellach. Gan ddibynnu ar sensitifrwydd yr amgylchedd a fydd yn derbyn yr elifion, efallai y gellir darparu triniaeth bellach, er enghraifft trwy ychwanegu system hidlo fel maes draenio neu dwmpath draenio uwchben y ddaear, corsle, system gwlyptiroedd neu ddiheintiad UV.

### Cynnal a chadw a gwasanaethu eich cyfleuster parod i drin carthion

Bydd slwtsh a solidau'n ymgasglu dros amser yn y cyfleuster parod i drin carthion a byddant yn effeithio ar ei berfformiad. Bydd angen cael gwared â'r slwtsh yn rheolaidd. Dim ond gweithwyr a chanddynt hyfforddiant a chymwysterau addas a ddylai wneud y gwaith cynnal a chadw, yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr – gweler yr adran sy'n sôn am wagio eich system i gael mwy o wybodaeth.

**Bydd angen rhoi gwasanaeth proffesiynol bob 12 mis i'r rhan fwyaf o gyfleusterau parod i drin carthion, ynghyd â chynnal archwiliad manwl bob 6 mis.** Mae hyn yn angenrheidiol hyd yn oed yn y flwyddyn gyntaf pan fydd y cydrannau â gwarant. Rhaid cynnal a chadw'r system yn rheolaidd wedyn yn ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gan ddefnyddio gweithredwyr a chanddynt brofiad o ddelio â systemau trin carthion. Yn aml, gwneir hyn trwy gyfrwng cytundeb cynnal a chadw gyda chwmni gwasanaethu awdurdodedig.

Argymhellwn eich bod yn llunio Cytundeb Gwasanaeth gyda chontractwr cyfrifol. Gallwch ddod o hyd i restr o beirianwyr achrededig ar wefan British Water https://www.britishwater.co.uk/directory/accredited-service-engineers.aspx

Dylid archwilio'r allfa'n rheolaidd. Dylai'r elifion fod yn glir a llifo'n rhwydd. Os yw eich system yn gollwng i gwrs dŵr, archwiliwch yr allfa bob mis. Os gwelwch lysnafedd llwyd ar wely'r cwrs dŵr, neu os byddwch yn clywed arogl drwg neu'n gweld newid amlwg yn y planhigion yn is i lawr yr afon na'r allfa, cysylltwch â chontractwr cynnal a chadw i archwilio eich system.

## Beth yw Carthbyllau – systemau casglu'n unig?

Tanciau tanddaearol gydag allfa yw carthbyllau. Maen nhw'n storio dŵr gwastraff ac maen nhw wedi'u cysylltu â'r adeilad sy'n cynhyrchu'r dŵr gwastraff trwy gyfrwng cyfres o ddraeniau. Dylent gynnwys larwm i ddangos eu bod bron yn llawn. Mae angen eu gwagio'n rheolaidd, felly rhaid i dancer allu mynd ar y safle. Ni chaniateir y rhain mewn rhai rhannau o'r DU a dim ond **yn niffyg popeth arall** y cânt eu hystyried yng Nghymru. **Ni** ddylai unrhyw hylifau gael eu gollwng i ddŵr daear neu ddŵr wyneb.

### Cynnal a chadw

Dylid archwilio carthbyllau am orlif bob pythefnos, a'u gwagio fel bo'r angen – **yn ôl pob tebyg oddeutu 24 gwaith y flwyddyn** (ond gall fod yn fwy neu'n llai).

Er enghraifft: efallai y bydd aelwyd o dri o bobl yn cynhyrchu 9000 litr (oddeutu 2000 galwyn) o elifion gwastraff bob pythefnos ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i faint tancer arferol. Os nad ydych yn gorfod gollwng y tanc ar raddfa debyg, yna mae'n bosibl bod y tanc yn gollwng a bod angen rhoi sylw brys iddo i atal llygredd.

## Gwagio slwtsh o'ch tanc septig, eich cyfleuster parod i drin carthion neu eich carthbwll

Defnyddiwch gontractwr cofrestredig yn unig i wagio eich tanc. Mae gennych ofyniad cyfreithiol – a elwir yn 'ddyletswydd gofal' – i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y gwastraff yn cael ei waredu gan berson awdurdodedig. Gallwch ddod o hyd i gludydd gwastraff mewn cyfeiriadur busnes neu gallwch chwilio ar y we am wasanaethau *gwagio tanciau septig*. Gofynnwch i'r Cwmni am ei rif cofrestru, neu gallwch gadarnhau a yw cludydd gwastraff wedi'i gofrestru ar gofrestr gyhoeddus Cyfoeth Naturiol Cymru neu drwy ffonio 0300 065 3000. Yn Lloegr, gallwch edrych ar gofrestr gyhoeddus Asiantaeth yr Amgylchedd neu ffonio 03708 506 506. Dylai pob cludydd gwastraff awdurdodedig fod â phrawf ei fod wedi cofrestru, a dylai hwn fod ar gael i chi ei archwilio. Os nad yw wedi cofrestru, peidiwch â gadael iddo fynd â'r gwastraff ymaith a chysylltwch â ni'n syth.

Dylech sicrhau bod eich contractwr yn rhoi nodyn trosglwyddo gwastraff dyletswydd gofal i chi. Dylai hwn nodi sut fath wastraff ydyw a faint ohono sydd wedi'i gludo ymaith, ac mae'n sicrhau y bydd y gweithredwr yn trin ac yn gwaredu'r slwtsh yn briodol. **Mae nodiadau trosglwyddo gwastraff yn ddogfennau cyfreithiol a gaiff eu harwyddo gan y ddau barti a rhaid eu cadw am 5 mlynedd.**

Bob tro y bydd eich tanc yn cael ei wagio, neu bob tro y bydd gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud, cadwch gofnod yn y llyfr log a geir ar ddiwedd yr arweiniad hwn. Bydd hyn yn eich helpu i reoli eich system a bodloni gofynion cyfreithiol, a gallwch ei roi i'r preswylwyr newydd os byddwch yn symud tŷ. Efallai hefyd y bydd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am gael gweld y cofnodion hyn.

## Awgrymiadau ardderchog ar gyfer cynnal a chadw eich tanc septig neu eich cyfleuster parod i drin carthion

## GWNEWCH Y CANLYNOL:

- **Gwnewch yn siŵr fod y slwtsh yn cael ei wagio'n rheolaidd gan gludydd gwastraff cofrestredig –**
  - Gwagiwch eich tanc septig bob blwyddyn neu ddwy
  - Ewch ati i gael gwared ar y slwtsh o'ch cyfleuster parod i drin carthion yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- **Darparwch fynediad addas fel y bydd modd gwagio, gwaredu slwtsh, a chynnal a chadw systemau trin carthion.**
- **Defnyddiwch gynhyrchion glanhau 'ecogyfeillgar', y nodir ar eu labeli eu bod yn addas ar gyfer tanciau septig.**

- defnyddiwch gynhyrchion glanhau yn ddiwastraff ac yn aml, fel na fydd y system yn cael ei llethu ac fel na fydd y bacteria da yn cael eu lladd
- ceisiwch gadw at yr un cynhyrchion glanhau; yna, bydd gan y bacteria yn eich tanc gyfle i ymaddasu, er mwyn iddynt allu pydru eich carthion yn fwy effeithlon
- defnyddiwch gynhyrchion glanhau nad ydynt yn cynnwys ffosffadau. Mae ffosffadau a geir mewn cynhyrchion glanhau yn llygru llawer iawn ar gyrsiau dŵr.

- **Cadwch gofnodion cynnal a chadw, er mwyn i chi wybod pryd y dylid gwasanaethu a gwagio eich system. Cadwch y dogfennau hyn ynghyd â dogfennau sy'n nodi sut fath o system trin carthion sydd gennych, ei maint a'i lleoliad, yn ogystal â manylion ac amlder y gwaith cynnal a chadw/gwaredu slwtsh.**
  - Bydd hyn yn procio'r cof ac yn eich helpu i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Rhaid rhoi'r dogfennau hyn i'r preswylwyr newydd os byddwch yn symud tŷ. Defnyddiwch y llyfr log i'ch helpu i gofnodi'r wybodaeth.
- **Ceisiwch ddefnyddio llai o ddŵr**
  - gosodwch ddyfeisiau arbed dŵr yn seston eich toiled
  - gosodwch awyryddion yn eich tapiau a'ch cawod
  - gwnewch yn siŵr fod eich peiriant golchi llestri a'ch peiriant golchi dillad yn llawn bob tro cyn eu defnyddio
  - ewch am gawod yn hytrach na bath
  - bydd defnyddio peiriant golchi llestri sy'n llawn llestri yn defnyddio llai o ddŵr na golchi'r llestri â llaw
- **Os yw eich system trin carthion angen trydan, gwnewch yn siŵr fod y cyflenwad yn ddi-dor.**
  - Argymhellir eich bod yn gosod larwm i'ch rhybuddio pe bai yna doriad trydan neu ddiffyg mecanyddol.

## PEIDIWCH Â GWNEUD Y CANLYNOL:

- **Peidiwch byth â fflysio unrhyw beth i lawr y toiled ac eithrio gwastraff dynol a phapur toiled, ac atgoffwch eich ymwelwyr i wneud yr un peth**
  - Rhowch unrhyw eitemau eraill mewn bag ac wedyn yn y bin, er enghraifft papur cegin, eitemau mislif, ffyn cotwm, weips toiled, condomau, cewynnau – rhowch y rhain mewn bag ac wedyn yn y bin
- **Peidiwch â defnyddio draeniau i gael gwared â chemegau, toddyddion olew, saim neu hylifau glanhau brwshis paent.**
  - Gall rhai sylweddau niweidio'r micro-organeddau. Darllenwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ynglŷn â defnyddio deunyddiau glanhau fel canyddion.
- **Peidiwch â phlannu coed wrth ymyl eich system trin carthion**
  - gall y gwreiddiau wneud niwed i'ch system, gan beri i garthion dreiddio allan a pheri i ddŵr dreiddio i mewn
- **Peidiwch â chysylltu dŵr to a dŵr wyneb â'ch system trin carthion.**
  - Efallai y bydd hyn yn llethu'r system ac yn ei rhwystro rhag gweithio'n effeithlon
- **Peidiwch â rhoi braster, olew neu gemegau i lawr y draen, oherwydd fe fyddant yn lladd y bacteria sy'n pydru'r gwastraff.**
  - Olew, saim, braster – sychwch y sosbenni, tywalltwch y braster i gynhwysydd a rhowch ef yn y bin
  - Poteli meddyginiaeth, cemegau gardd, gwrthrewyddion, paent, sylweddau – ewch â nhw i safle amwynderau dinesig i gael gwared â nhw

- **Peidiwch â pharcio ar ffos gerrig**
  - Ni fydd daear gywasgedig yn draenio'n effeithiol

## Pwy all helpu?

I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar ein gwefan:
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu cysylltwch â ni ar –
Rhif ffôn – 030 0065 3000, dydd Llun i ddydd Gwener 9 AM tan 5 PM
Cyfeiriad e-bost - ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Neu ysgrifennwch atom: Y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid, Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 0TP

I roi gwybod inni am **ddigwyddiad llygredd**, gallwch ein ffonio 24 awr y dydd ar **030 0065 3000.**

**Awdurdod Lleol** – adran iechyd yr amgylchedd neu reoliadau adeiladu

**Cwmnïau lleol sy'n delio â dŵr gwastraff:** Chwiliwch am beiriannydd achrededig ac arweiniad pellach ar www.britishwater.co.uk/engineers

## Gwybodaeth bellach

- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru
  WGC 008/2018: Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd, gan gynnwys tanciau carthion a gweithfeydd bach trin carthion
- NetRegs
  GPP 4: Trin a gwaredu carthion lle nad oes carthffos fudr ar gael.
  http://www.netregs.org.uk/media/1460/gpp4-20171031-online-v1.pdf
- British Water
  - https://www.britishwater.co.uk/Publications/codes-of-practise.aspx
- Rheoliadau Adeiladu – gofynion yn ymwneud â meysydd draenio
  - Dogfen H a gymeradwywyd – 'Drainage and Waste Disposal', ar gael ar http://www.planningportal.gov.uk/buildingregulations/approveddocuments/parth/approved
- Safonau Prydeinig
  - https://shop.bsigroup.com/Navigate-by/Standards/
- Cyhoeddiad Eryri-Bywiol, 'Looking after your septic tank: a guide and logbook for householders', ar gael ar http://www.loving-our-lake.org/2013/10/14/looking-after-your-septic-tank/

Lluniwyd y ddogfen hon ym mis Mai 2019

**Cyhoeddwyd gan:**
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd

CF24 0TP
0300 065 3000 (Llun-Gwener, 9am - 5pm)
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
ⓗ Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy gael caniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Llyfr log a chofnod cynnal a chadw

Mae angen i chi gadw cofnod o'r archwiliadau yr ydych wedi'u gwneud. Os oes gennych gontract cynnal a chadw gyda chontractwr, cadwch gofnod o unrhyw waith a wneir ganddo.

| | |
|---|---|
| **Rhif y Drwydded neu'r Eithriad** | |
| **Math o system** | |
| **Manylion cyswllt mewn argyfwng** | |

| Dyddiad | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed | Enw<br>Cynhwyswch rif trwydded y contractwr a'r cludydd gwastraff ar gyfer gwaredu slwtsh | Rhif y Nodyn Trosglwyddo Gwastraff |
|---|---|---|---|
| *14/03/18* | *e.e. archwilio'r maes draenio a lefel y slwtsh* | *U.N. Enghraifft*<br>*(perchennog tŷ)* | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |